



Awst + Medi 2013

Bu'n haf prysur o samplu ac rydym yn dechrau cael rhai adroddiadau rhagarweiniol at ei gilydd. Os gwelwch yn dda daliwch ati i wirio'n gwefan am y rhain ac ewch at y rhan adroddiadau ar gyfer ein hadroddiadau, cyhoeddiadau a'r cyflwyniadau rydym wedi eu cwblhau hyd yn hyn.

Ewch i: <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk> a dewis 'Welsh fisheries' – 'Reports'. Neu cysylltwch â'r adroddiadau diweddaraf drwy ein tudalen gartref (Cornel dde uchaf) . Mae'r wefan yn cynnwys lluniau a fideos o'n gwaith, ac ymunwch a'n tudalen Facebook am ragor o wybodaeth:

<https://www.facebook.com/fisheriesconservation>. Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter:

@Fisheriesbangor.

Gŵyl Môr i'r Traeth (Sea 2 Shore Festival) – Aberystwyth

Ar 17eg Awst cymerodd grŵp "Adnoddau Pysgodfeydd Cynaliadwy yn Nyfroedd Cymru" ran yn yr Ŵyl Môr i'r Traeth yn Aberystwyth. Dathlodd yr ŵyl hon y llu adnoddau môr a'r traethau sydd gan Fae Ceredigion i'w gynnig, ac roedd yn cynnig arddangosfeydd coginio a physgota, gweithgareddau plant, anifeiliaid byw, stondinau crefft, bwyd, cerddoriaeth a gwybodaeth. Roedd gan ein prosiect stondin yn dangos ein gwahanol offer casglu data, fideos o'n camerâu tanddwr yn gweithredu, ac amrywiaeth o adnoddau addysgiadol yn egluro'n prosiect. Er ei bod yn wlyb ac yn wyntog, daeth digon o bobl i'r ŵyl a buom yn siarad â llawer iawn o bobl yn ein stondin oedd â diddordeb. Roedd yn ddiwrnod gwirioneddol wych a gobeithio y cawn fod yn rhan unwaith eto'r flwyddyn nesaf.

Gŵyl Bwyd Môr Menai



Ar 31^{ain} Awst, cynhaliwyd Gŵyl Bwyd Mor cyntaf Porthaethwy. Roedd gennym stondin yma eto ac unwaith eto roedd hi'n ddiwrnod gwirioneddol brysur a diolch i bob un a alwodd heibio'n stondin

Holiadur Pysgotwyr

Mae holiadur gwybodaeth y pysgotwyr wedi dechrau gyda'r cyfweiliadau cyntaf wedi eu cynnal. Rydym yn dal eisiau rhestru pysgotwyr ar gyfer cyfweiliadau. **Lledaenwch y gair, os gwelwch y dda, a chysylltwch â Julia, os oes 'na unrhyw beth yr hoffech chi i ni wybod am Bysgodfeydd Cymru! Mae'r holiadur hwn yn bwysig i ganfod ardaloedd yr arfordir sy'n bwysig i pysgotwyr, bydd yn darparu portffolio o dystiolaeth annibynnol i'r diwydiant bysgota ei defnyddio wrth symud ymlaen (e.e. pan fydd yn wynebu datblygiadau adnewyddadwy), a bydd yn hysbysu'n dealltwriaeth o fioleg y rhywogaethau sy'n fasnachol bwysig yng Nghymru.**

E bost – j.pantin@bangor.ac.uk, neu gallwch gofrestru ar ein gwefan – cliciwch ar y ddolen 'Get involved' ar: <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk>

Cyfweliadau economaidd

Cychwynnodd y cyfweliadau economaidd ac mae 10 wedi eu cwblhau hyd yn hyn. Diolch i'r pysgotwyr hynny sydd wedi rhoi eu hamser i helpu. **Dewch yn rhan o hwn, os gwelwch yn dda, a chysylltwch â g.cambie@bangor.ac.uk. Cofiwch fod yr arolwg hwn yn bwysig oherwydd bydd yn mynd i'r afael â'r tan brisio cyfredol o werth masnachol pysgodfeydd i economi Cymru ac felly yn codi materion pysgodfeydd yn uwch ar yr agenda.**



Cregyn Bylchog

Cwblhawyd yr asesiad o stoc cregyn bylchog. Gellir canfod crynodeb o'r canlyniadau cychwynnol yn yr adroddiad interim ar-lein. Ewch i <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk>, cliciwch ar "Welsh fisheries" ac wedyn "Reports". Teitl yr adroddiad yw "Welsh scallop stock assessment survey July-August 2013: feedback to industry". Bydd yr wybodaeth a gasglwyd ar ddigonedd, biomas, maint, oedran ac aeddfedrwydd, yn ogystal â gwybodaeth am y sgil ddaliadau yn cael ei brosesu yn ystod y misoedd nesaf ac adroddiad helaeth yn cymharu data 2012 â data 2013 yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn. Hyn gobeithio fydd dechrau cyfres amser ddefnyddiol iawn fydd yn caniatáu i ni asesu statws y stoc sydd ar gael i'r bysgodfa a darparu'r dystiolaeth amhrisiadwy sydd ei angen ar y diwydiant yng Nghymru a Llywodraeth Cymru, i drafod cynlluniau rheolaeth cynaliadwy ble ac os bydd angen yn y dyfodol.

Ffurfiwyd Grŵp Gwaith Asesu Stoc Cregyn Bylchog ICES newydd eleni, a buom yn y cyfarfod cyntaf yn ystod wythnos gyntaf mis Medi. Bwriada'r grŵp gymharu'r dulliau a ddefnyddir gan wyddonwyr o wahanol wledydd Ewropeaidd yn nhermau cynnal asesu stoc a chynghori'r bysgodfa cregyn bylchog. Daeth gwyddonwyr o Ffrainc, Lloegr, yr Alban, Iwerddon, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw, Cymru, Gwlad yr Iâ ac Unol Daleithiau'r Amerig at ei gilydd am 4 diwrnod a rhannu eu profiad. Bydd adroddiad yn cael ei anfon i'r ICES yn Chwefror 2014 a bydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd yn cynnwys cylch gorchwyl y grŵp a chrynodeb yn cyflwyno'r gwahanol unedau stoc o amgylch Ewrop. Nid oes unrhyw oblygiad o'r gwaith a gyflawnir gan y grŵp hwn i bysgodfa yng Nghymru ar hyn o bryd, gan nad oes cyngor i'w roi ar lefel Ewropeaidd. Platfform yw'r grŵp ar hyn o bryd i arbenigwyr rannu profiad, gwneud penderfyniadau cytbwys o ran casglu data, ac yn y tymor hir cael allbwn cymaradwy rhwng stociau a allai lywio penderfyniadau rheolwyr ble a phan mae angen.

Gohiriwyd y treial dwyster pysgota, a anelwyd at ganfod ymdrech bysgota cynaliadwy ym Mae Ceredigion, o ran effaith ar y cynefin, tan fis Ebrill 2014 am resymau logistaidd. Bydd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA), Llywodraeth Cymru, Grŵp Pysgodfeydd a Grŵp Gwyddoniaeth Pysgodfeydd a Chadwraeth Prifysgol Bangor, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Seafish yn dod at ei gilydd ym mis Hydref i drafod materion perthnasol er mwyn symud ymlaen. Caiff y diwydiant wybod am y cynnydd a'r posibiladau o fod yn rhan o hyn cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod.

Mae'r meddalwedd ar gyfer holiadur y pysgotwyr bellach yn barod a chynhaliwyd rhai cyfweliadau eisoes. Byddwn yn cysylltu â pysgotwyr cregyn bylchog yn fuan iawn. Yn fyr mae'r holiadur yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth eang pysgotwyr am stoc y cregyn bylchog, eu hamrywiadau a pheth gwybodaeth ecolegol ac amgylcheddol. Bydd y wybodaeth hon i gyd yn perthyn i'r diwydiant

pysgota cregyn bylchog (er na fydd dim data sensitif masnachol personol yn cael ei rannu) a bydd yn gymorth i lywio asesiadau stoc ac unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r diwydiant (parthau gyda'r gwrthdaro buddiannau rhwng gwahanol rhanddeiliaid, effaith ar gynefinoedd etc).

Cysylltwch â **Gwladys**, g.lambert@bangor.ac.uk neu 01248 388472, os dymunwch fod yn rhan o hyn (neu cysylltwch â Julia fel y nodwyd uchod).



Cramenogion

Arolwg o gramenogion ifanc



Cranc coch ifanc (*Cancer pagurus*), a'r cimwch Ewropeaidd (*Homarus gammarus*) a ddaliwyd yn ein cewyll arbrofol.

Buom yn defnyddio cewyll corgimwch siâp D i ddal gorgimychiaid a chimychiaid ifanc. Rydym yn gobeithio canfod y math o gynefin a ddefnyddir gan yr anifeiliaid hyn ac i ddyfeisio mynegai digonedd a ellir ei ddefnyddio i fonitro'r boblogaeth. Rydym yn peilota'r arolwg hwn yng Ngogledd Cymru gan ei fod yn golygu codi'r cewyll bob 2-3 diwrnod. Unwaith rydym wedi datblygu'r dull fe wnawn roi hwn ar waith fesul cam ledled Cymru i weld os oes unrhyw wahaniaethau rhanbarthol. Mae hwn yn arolwg arbrofol ar hyn o bryd ac rydym yn ceisio cawella mewn sawl lleoliad gwahanol. Os oes gan unrhyw un awgrym neu unrhyw un yn gallu dangos i ni ardal dda i ddal cimychiaid bach neu grancod bach byddem yn falch iawn o glywed gennych. Crybwyllwyd y byddai pysgotwyr gorgimychiaid yn gallu'n helpu gyda hyn – po leiaf y gorau!

Buom yn defnyddio system camera y gellir ei gollwng i lawr i ganfod y cynefinoedd ble gosodir cewyll. Ewch i'n tudalen gwe, ac i 'Videos & Images' yn y ddewislen (<http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk/vidimg.php.en>) neu dilynwch y ddolen yn y 'Newyddion Diweddaraf' ('Latest News') ar y dudalen gartref i weld rhan o ffilm.

Cysylltwch â:

Natalie Hold n.hold@bangor.ac.uk : 07903 762466

Jodie Haig j.haig@bangor.ac.uk : 07593 635348

Tagio cimychiaid

Cychwynnodd y rhaglen tagio cimychiaid yn ystod yr haf. Buom yn edrych ar oroesiad cimychiaid ar ôl eu tagio yn ein acwaria yma yn y brifysgol. Cawsant eu tagio ym Mis Mai ac mae'r cyfan o'r 13 o gimychiaid yn dal i wneud yn dda yn ein tanciau. Byddwn yn ehangu'r astudiaeth oroesi hon i

gynnwys cimychiaid sy'n llai o faint unwaith y cawn drwydded gan Lywodraeth Cymru. Yn ychwanegol rydym wedi cael un cimwch yn bwrw ei gramen yn y tanciau a chadw ei dag yn llwyddiannus. Byddwn yn parhau i gadw'r cimychiaid yn y tanciau i sicrhau fod eu goroesiad hirdymor yn dda.

Allan yn y môr rydym wedi tagio tua 700 o gimychiaid. Cawsom gyfradd dda o ail ddal hyd yn hyn. Er enghraifft, roedd Brett Garner ym Mhen Llŷn wedi tagio bron i 350 o gimychiaid a mae'n dal rhwng 5 a 10 o gimychiaid wedi'u tagio bob tro mae'n mynd allan i gawella. Hyd yn hyn mae wedi ail ddal bron i 50 o gimychiaid. Mae nifer yr ail ddal wedi gostwng ychydig yn ddiweddar a chredwn mai bwrw eu cramen fyddai'n gyfrifol am hynny. Ar dripiâu pysgota blaenorol daliasom gimychiaid oedd yn dangos arwyddion eu bod yn paratoi i fwrw eu cramen. Gobeithio, mewn ychydig o wythnosau, pan fyddant wedi cael amser i galedu, y gwelwn ni ein data twf cyntaf. Hyd yn hyn, ychydig iawn mae'r cimychiaid a gafodd eu ail ddal wedi symud, dim ond ychydig o ddegau o fetrau. Byddwn yn parhau i blotio data symud, a gweld os yw'r patrwm yn newid ar amseroedd gwahanol o'r flwyddyn neu gyda chimychiaid o wahanol faint.

Diolch i bob un o'r pysgotwyr sydd wedi'n helpu gyda'r tagio a byddwn yn parhau i dagio gyda'r pysgotwyr nad ydym wedi llwyddo i fynd allan gyda hwy eto.

Maint Cimychiaid Aeddfed

Cawsom fyfyrwraig sy'n astudio am Radd Meistr yn ein helpu i benderfynu beth yw maint cimwch wedi iddo gyrraedd oed aeddfedrwydd. Bu'n casglu data oddi wrth gimychiaid a ddaliwyd ym Mhen Llŷn a Sir Benfro i gymharu oed aeddfedrwydd yn ne a gogledd Cymru. Y dull cyntaf oedd edrych ar y maint ar gychwyn aeddfedrwydd. Mae hyn yn edrych ar y maint lleiaf y mae cimychiaid yn debyg o fod yn aeddfed ac mae'r dulliau'n cynnwys edrych ar siâp y corff; lled yr abdomen mewn menywod a siâp yr ewinedd malu mewn gwrywod. Yn ychwanegol edrychasom ar faint cimwch benywaidd (brownas) sy'n cludo wyau i gyfrif y maint lleiaf a'r maint cyfartalog y gall brownas gario wyau. Yn olaf buom yn edrych ar chwarennau sment mewn menywod. Mae'r chwarennau hyn yn secretu'r sment sy'n dal y wyau i abdomen a choesau'r fenyw, ac mae sut maent yn edrych dan y microsgop yn newid gydag aeddfedrwydd. Cwblhawyd y casgliad data olaf yn ystod wythnos gyntaf mis Medi ac rydym bellach yn dechrau dadansoddi'r canlyniadau gydag adroddiad i fod yn barod yng nghanol mis Hydref.

Cimychiaid yn Bwrw eu Cramen



Dengys sgrin y cyfrifiadur lun o un o aelodau nofio cimwch a dynnwyd gan ddefnyddio camera microsgop USB ar gyfer ei ddadansoddi

Bu myfyriwr sy'n astudio ar gyfer Gradd Meistr yn edrych ar gylch bwrw eu cramen mewn cimychiaid. Rydym yn gobeithio gweld pa gyfran o'r boblogaeth sy'n bwrw eu cramen unwaith o'i gymharu â dwywaith. Bydd hyn yn cael ei gyfuno gyda'r data tyfiant i fodelu tyfiant y boblogaeth. Gyda'r dechrau oer i'r tymor roedd yn anodd dal cimychiaid ym mis Mai pan oeddem yn disgwyl iddynt fwrw eu cramen am y tro cyntaf. Ers hynny, fodd bynnag, rydym wedi dadansoddi 1000 o gimychiaid o ogledd a de Cymru. Rydym wedi edrych ar ran o'r goes nofio dan y microsgop i weld sut mae'r epidermis/croen y cimwch yn tynnu'n ôl o du mewn y gragen pan mae'n agosáu at fwrw ei gramen. Cwblhawyd yr un casgliad yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Medi ac mae dadansoddi'r data wedi cychwyn a'r adroddiad i fod ar gael yng nghanol mis Hydref.

Astudiaeth Gorddrws i'r Cimychiaid ym Mae Ceredigion

O'r 18 i'r 23 Awst, treuliodd Julia wythnos ym Mae Ceredigion yn gosod system camera ar fwrdd tair o'r pedair cwch oedd â rhan yn yr astudiaeth gorddrws i'r cimychiaid. Aeth hefyd allan am ddiwrnod o gawella gyda dau o'r cawellwyr i gymryd mesuriadau ac i sicrhau fod protocol camera ar y cwch yn gweithio i'r pysgotwyr. Recordiwyd y fideos cyntaf ac maent yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd er mwyn dilysu'r system camera ar y cwch. Mae'r pysgotwyr wedi dechrau pysgota gyda'r cewyll gorddrws. Fodd bynnag mae tywydd gwael wedi golygu mai ychydig o ddyddiau pysgota a gafwyd ac o ganlyniad dechrau araf a gafwyd i gasglu'r data. Mae'r pedwerydd system camera yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd a chaiff ei osod cyn gynted ag y bydd wedi ei orffen.

Diolch i'r rhai fu'n cymryd rhan!



Camera ar y cwch

Mae bwletin diweddaraf am y camera ar y cwch ar gael ar hyn o bryd yn yr adran 'Newyddion Diweddaraf' ('Latest News') ar dudalen gartref ein gwefan Ewch i:

<http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk>

Ffurflenni Misol Pysgod Cregyn

Rydym wedi mewnbynnu'r data o ffurflenni misol pysgod cregyn gan yr ychydig bysgotwyr sydd wedi anfon eu copi triphlyg i ni. Rydym yn y broses o anfon adroddiad cryno gyda graffiau yn ôl i'r unigolion hynny. Fodd bynnag, rydym yn deall fod Llywodraeth Cymru nawr wedi cyflogi rhywun i fewnbynnu'r data hwn o'i archifau er mwyn symud ymlaen. Byddwn yn edrych sut y gallwn rannu'r

data hwnnw yn hytrach nac ailadrodd y gwaith, felly ar hyn o bryd ni fydd angen i unrhyw bysgotwyr eraill i anfon eu dychweliadau triphlyg atom.

Am unrhyw wybodaeth ar ymchwil cimychiaid cysylltwch, os gwelwch yn dda, â **Natalie Hold**: n.hold@bangor.ac.uk.

Cranc coch



Cranc coch ifanc, *Cancer pagurus*.

Bu myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer graddau Meistr yn monitro poblogaethau crancod coch ifanc ar arfordir Môn a Sir Benfro drwy'r haf ac maent ar hyn o bryd yn ysgrifennu eu traethodau hir. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael yn fuan! Y mis hwn aethom ar daith adnabod y crancod gyda Bethan Wyn Jones o'r Herald Cymraeg. Gan ei fod yn anghyfreithlon i gymryd cranc coch sy'n rhy fach rhaid i ni adael i'r bois bach yma gael cyfle i dyfu a chyfrannu i'r genhedlaeth nesaf (a hefyd rhoi cinio da i chi!) Dysgwch eich ffrindiau a'ch teulu sut i weld y gwahaniaeth rhwng crancod coch a chrancod eraill (mae gan grancod coch "ochr pastaï" o amgylch y gramen a blaenau du ar y pinsiyrnau blaen du) ac mae gwarchod y bois bach yma ar y traeth er lles pawb.

Ewch i'n gwefan i weld yr erthygl llawn yn yr Herald Cymraeg yn y Daily Post. Ewch i'r dudalen gartref a dilynwch y cysylltiadau o'r 'Newyddion Diweddaraf' neu dewiswch 'Welsh Fisheries' - 'Reports' a sgrolio i lawr i ganfod 'Press releases': <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk/documents/Dailypostarticle-crabsSept13.pdf>

Gorgimychiaid



Palaemon serratus, yn y labordy.

Bu myfyrwyr gradd Meistr yn samplo poblogaethau gorgimychiaid drwy'r haf o amgylch Môn a Sir Benfro ac maent ar hyn o bryd yn ysgrifennu eu traethodau hir. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael yn fuan! Er mwyn cael cipolwg slei mae'r adroddiad ar Arfordir Sir Benfro ar gael yn barod ar ein gwefan.

Newyddion diweddaraf: Bydd Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion (CBFA) gyda chymorth tîm Gwyddoniaeth Pysgodfeydd a Chadwraeth, yn fuan yn mynd ar daith gyffrous i gael Achrediad Cyngor Stiwardiaeth Morol (MSC) ar gyfer Pysgodfa Palaemon Bae Ceredigion. Rydym yn rhagweld y byddwn am y 24 mis nesaf yn helpu i gasglu'r data fydd ei angen i wneud cais am statws MSC. Ni fydd y broses hon yn digwydd heb ymgynghoriad eang gyda'r diwydiant felly, os ydych yn bysgotwr gorgimychiaid ym Mae Ceredigion, byddwch yn barod am gyfarfodydd sydd ar fin digwydd. Byddwch yn clywed gennym yn fuan. Mae achrediad MSC yn golygu prisiau teg a sefydlog i bysgotwyr; sicrhair cynnyrch cynaliadwy olrheiniadwy a physgodfa gorgimychiaid yn y dyfodol. Byddwch yn barod am y diweddaraf gan y CBFA a ninnau!

Rydym yn chwilio am bysgotwyr fyddai'n gallu cymryd rhan mewn samplu'r pysgodfeydd gorgimychiaid yn ystod y gaeaf. Bydd y samplu yn darparu gwybodaeth werthfawr am y pysgodfeydd a bydd yn cael ei ddefnyddio i ddeall amrywiadau yn y dalfeydd ac i ddarparu gwell dealltwriaeth o iechyd pysgodfeydd ledled Cymru. Os dymunwch bysgota dau gawell gwyddonol i ni, cysylltwch â Jodie: j.haig@bangor.ac.uk. Bydd Jodie yn ymweld â chi unwaith y mis i gasglu samplau, ac am weddill yr amser bydd gennych bob rhyddid i bysgota'r cewyll gwyddonol fel y dymunwch.



Draenogiaid y môr

Mynegai Rhai Ifanc

Rydym wedi bod allan yn chwilio am ddylifiad draenogiaid y môr ifanc (grŵp oedran <1 blwyddyn) yn dod i mewn i'r aberoedd o amgylch Cymru. Rydym wedi gwneud hyn er mwyn asesu cyflenwad y draenogiaid ifanc sy'n dod i'r ardal er mwyn datblygu mynegai ar eu cyfer. Rydym yn samplu gan ddefnyddio rhwyd Seine â rhwyll micro. Defnyddiwyd y rhwyd yn Aber yr Afon Conwy, y Foryd (Bae Caernarfon), Tywod Malltraeth, Porthmadog, y Friog, Tywyn, Aberdyfi (2 safle), Aberdaugleddau, Bae Abertawe, Afon Llŵchwr. Yr unig ddraenogiaid môr ifanc a gafwyd oedd yn y de (Bae Abertawe a'r Afon Llŵchwr), sy'n awgrymu fod 2013 yn flwyddyn wael ar gyfer draenogiaid môr ifanc.

Pysgotwyr a masnachwyr pysgod

Rydym wedi parhau i gasglu data gan bysgotwyr a gwerthwyr pysgod er mwyn casglu samplau o gonad (chwarennau rhyw) draenogiaid y môr, er mwyn asesu aeddfedrwydd, a chymhareb gwrywod: benywod. Mae'r adroddiad byr cyntaf ar ddisbarthiad amlder hyd draenogiad y môr a pherthynas hyd-pwysau wedi ei chwblhau ac mae ar gael ar ein gwefan: <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk/>. Ewch i'r dudalen gartref a dilynwch y dolennau o'r adran Newyddion Diweddaraf ('Latest News') i adroddiad 26.

Diolch yn fawr iawn i'r holl bysgotwyr sy'n cymryd rhan ac i'r gwerthwyr pysgod sydd wedi gweithio gyda ni hyd yn hyn: Tucker's Fresh Fish a Coakely-Greene Fishmongers ym Marchnad Abertawe, Gills's Plaice yn Nhywyn, Chris Davies o Welsh Seafoods yn Nociâu Aberdaugleddau, Owen Davies o Channel Fish ym Mhorth Tywyn, Debbie a Paul o Swansea Fish, a'r holl bobl garedig o Mermaids Seafoods yn Llandudno.

Os ydych yn bysgotwr sy'n targedu draenogiaid y môr neu'n werthwr pysgod, ac rydych yn dymuno

cymryd rhan, yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Ni fyddwn yn ymyrryd â'ch gwaith. Y cyfan rydym ei angen yw cornel ble gallwn fesur y draenogiaid môr, cymryd tamaid bach o'r asgell, ychydig o gen, a ble mae'n bosib cymryd samplau o'r perfedd a'r gonadau.

Am yr holl brosiectau sy'n ymwneud â draenogiaid y môr cysylltwch â: g.cambie@bangor.ac.uk

Y Gragen Foch Fwyaf

Mae cregyn moch mwyaf a gasglwyd oddi amgylch Cymru yn cael eu prosesu yn y labordy ac rydym yn dal i gael data diddorol iawn (rydym eisoes yn dechrau rhoi adborth i'r pysgotwyr sy'n cymryd rhan). Rydym yn gobeithio dal i barhau i bysgota drwy gydol y gaeaf er fod yr hyn sy'n cael ei ddal yn is, bydd yn bwysig wrth benderfynu tueddiadau blynyddol mewn symudiad a gweithgaredd. Mae'r samplau hyn hefyd yn bwysig ar gyfer prosiect penderfynu ar oed y cregyn moch mwyaf fydd yn dechrau yn y flwyddyn newydd.



Y Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd:
Buddsoddi mewn Pysgodfeydd Cynaliadwy
European Fisheries Fund:
Investing in Sustainable Fisheries



Llywodraeth Cymru
Welsh Government